



Kids



OAK
NATIONAL
ACADEMY



Capsiwl Amser Ysgolion 2021

Rhagarweiniad

Yn dilyn digwyddiadau digynsail y flwyddyn ddiwethaf, nod prosiect Capiwl Amser Ysgolion 2021 yw cofnodi profiadau plant a phobl ifanc yn ystod y pandemig trwy gyfrwng celf a ffotograffiaeth, ysgrifennu a'r cyfryngau.

Mae'r prosiect hwn yn gwahodd plant i fynegi eu meddyliau a'u teimladau ynghylch y cyfnod hwn mewn modd creadigol, gan annog ymdeimlad o undod â'r gymuned ehangach.

Mae hwn yn gyfle unigryw i fod yn rhan o brosiect Place2Be, BAFTA Kids a'r Oak National Academy ar draws y Deyrnas Unedig. Mae gwahoddiad i bob ysgol yn y Deyrnas

Unedig gyflwyno detholiad o greadigaethau i Gapiwl Amser Ysgolion 2021, a fydd yn cael ei gadw ym mhencadlys ysblennydd BAFTA yn Piccadilly, Llundain.

Ymhen 25 mlynedd, i ddathlu canmlwyddiant BAFTA a mwy na 50 mlynedd ers sefydlu Place2Be, bydd y capsiwl yn cael ei agor er mwyn i ni fedru cofio'r adeg hon a myfrio arni.

Mae'r adnodd hwn yn llawn syniadau ac ysbrydoliaeth i helpu eich ysgol i gymryd rhan yn y prosiect, gan gynnwys syniadau am weithgareddau, ond mae croeso i chi lunio eich gweithgareddau a'ch creadigaethau eich hun.



Rhoi'r gair ar led

Rhannwch luniau o'ch disgyblion yn cymryd rhan yn y prosiect, ac anogwch ysgolion eraill i gymryd rhan, trwy bostio ar y cyfryngau cymdeithasol. Lawrlwythwch ein pecyn cymorth cyfryngau cymdeithasol bit.ly/2SV0E76



Ysbrydoli

Bydd y prosiect hwn yn helpu plant a phobl ifanc i feddwl am eu profiad emosiynol o bandemig Covid.

Dyma rai syniadau am weithgareddau i ysbrydoli eich disgyblion.

Ar gyfer ysgolion cynradd

Darllenwch y llyfr 'Outside, Inside' gan LeUyen Pham

Os nad oes gennych chi gopi o'r llyfr, gallwch [wyluo LeUyen yn ei ddarllen yma](#).

Trafodwch y llyfr fel dosbarth:

- Mae'r stori'n disgrifio rhai o'r ffyrdd y newidiodd y byd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Pa newidiadau sylwoch chi arnyn nhw'n digwydd y tu mewn a'r tu allan yn ystod y gwahanol dymhorau?
- A oedd ffyrdd i chi feddwl am y bobl sy'n bwysig i chi neu gadw mewn cysylltiad â nhw er nad oedden nhw'n agos?
- Wnaethoch chi ddysgu a mwynhau rhywbeth newydd, neu gael rhywbeth yn ddefnyddiol, yn enwedig ar adegau anodd?

Ar gyfer ysgolion uwchradd:

Yn eich dychymyg, dewch i ni deithio i'r dyfodol. Dychmygwch eich bod yn oedolyn a bod rhywun iau na chi yn eisiau gwybod sut brofiadau gawsoch chi yn ystod pandemig COVID.

- Beth oedd rhai o'r pethau oedd yn gwneud y cyfnod hwn yn wahanol i'r adeg o'r blaen?
- Beth ddysgoch chi?
- Pa anawsterau gawsoch chi?
- Beth wnaethoch chi ei ddarganfod a'i fwynhau?

Ymwadiad: Ysgogiadau i ysbrydoli ac annog myfyrdod personol yw'r rhain. Ni ddylai fod unrhyw bwysau i'w rhannu ar lafar oni bai bod disgyblion yn gyfforddus yn gwneud hynny.



🎵 Gwrando

Edrychwch trwy ein rhestr chwarae ar Spotify er mwyn gwrando ar ganeuon a seiniau i ysbrydoli eich disgyblion ymhellach. Gallech chwarae'r gerddoriaeth yn ystod y wers, wrth i'r disgyblion ddechrau cynllunio'u creadigaethau.

Creu

Nawr bod y disgyblion wedi meddwl am eu profiadau, mae'n bryd eu hannog i'w rhannu, boed trwy gelf a ffotograffiaeth, ysgrifennu neu'r cyfryngau. Awgrymir rhai gweithgareddau isod, gan gynnwys gweithgaredd celf gan dîm Ystafell Gelf Place2Be sy'n arbenigo mewn defnyddio celf i gefnogi a gwella llesiant plant a phobl ifanc.

Celf a Ffotograffiaeth

Anogwch eich disgyblion i ddefnyddio paent, sialc, pinnau, clai, papur sgrap, camerâu, mewn modd creadigol – a thynnu llun, cerflunio, paentio neu greu ffotograffau o'u profiadau.

- Rhowch gynnig ar y gweithgaredd celf a awgrymir ar y dudalen nesaf, a luniwyd gan dîm Ystafell Gelf Place2Be
- Ewch ati i baentio neu dynnu llun atgof sydd gennych o'r flwyddyn ddiwethaf
- Tynnwch, neu lluniwch, hunan-bortread ohonoch ar y funud hon
- Lluniwch *collage*

Chwilio am ragor o ysbrydoliaeth?

Gwylwch y fideo hwn i gael awgrymiadau celf a ffotograffiaeth gan Ricky Martin (o raglen Art Ninja CBBC), Sarah Lee a Chimaine o dîm Ystafell Gelf Place2Be: bit.ly/3ihMQOx

Ysgrifennu

Gofynnwch i'r disgyblion rannu eu profiadau trwy eiriau – trwy ysgrifennu storïau neu lythyrau atynt eu hunain yn y dyfodol, gan ddychmygu sut brofiad fyddai darllen y rhain ymhen 25 mlynedd.

- Ysgrifennwch lythyr atoch chi eich hun yn y dyfodol i rannu hanes eich blwyddyn
- Ysgrifennwch stori am rywun sy'n byw trwy'r pandemig
- Ysgrifennwch gerdd – gallech geisio llunio cerdd acrostig, limrig, haiku – penderfynwch chi

Chwilio am ragor o ysbrydoliaeth?

Mae Lemn Sissay, David Walliams ac Amy o'r Oak National Academy wedi rhannu awgrymiadau gwyh ar ysgrifennu. Gwylwch nhw yma: bit.ly/2SYWzyK

Awgrymiadau gwyh

Fe ofynnwn ni i arbenigwyr celf, ffotograffiaeth, ysgrifennu a chyfryngau rannu awgrymiadau gyda'r disgyblion. [Gwylwch y fideos yma.](#)

Cyfryngau

Helpwch y disgyblion i ddychmygu mai nhw yw eu hoff bersonoliaeth/seren deledu, YouTube neu TikTok – a'u ffilmio eu hunain neu ffilmio'i gilydd, yn rhannu eu profiadau.

- Recordiwch adroddiad newyddion i ddweud wrth bobl am y flwyddyn ddiwethaf – gallech chi gyfweld eich gilydd!
- Sianelwch eich hoff gymeriad YouTube a ffilmio flog
- Recordiwch bodlediad byr neu sioe radio

Chwilio am ragor o ysbrydoliaeth?

Mae'r arbenigwyr Katie Thistleton, Jamie Laing a Lucy o'r Oak National Academy yn rhannu awgrymiadau gwyh ar y teledu/radio. Gwylwch nhw yma: bit.ly/3gdh4zC



Creu

Syniad am Weithgaredd Celf o Ystafell Gelf Place2Be



Bydd arnoch chi angen:

- Papur (unrhyw faint, does dim rhaid iddo fod yn faint cerdyn post)
- Amlen (dewisol, gallech blygu papur/papur wedi'i ailgylchu i greu amlen)
- Pinnau / pensiliau / creonau
- Glud / tâp (dewisol)
- Deunyddiau collage / delweddau printiedig / cylchgronau / papurau newydd (dewisol)

Camau'r gweithgaredd creadigol:

1. Crëwch eich cerdyn. Dyma ble gallwch ddangos sut brofiad gawsoch chi yn ystod y pandemig. Gallech wneud hyn fel y mynnoch. Efallai byddwch chi am ddangos atgof, teimlad neu rywbeth pwysig a ddigwyddodd i chi. Dyma rai syniadau y gallwch eu defnyddio i'ch helpu i greu eich cerdyn post:

- Tynnwch lun eitem, digwyddiad, person neu anifail sydd wedi bod yn bwysig i chi
- Casglwch luniau o gylchgronau neu argraffwch luniau i greu collage neu 'lyfr lloffion' i ddangos sut flwyddyn gawsoch chi
- Lluniwch batrymau a siapiau i ddangos sut oedd pethau i chi eleni

- Gallech dynnu llun ton fawr a meddwl am rai o uchafbwyntiau ac isafbwyntiau'r flwyddyn (a'u hychwanegu ar frig ac ar waelod eich ton)
- Gallech greu sribyn comig sy'n adrodd stori fer
- Meddyliwch am air sy'n crynhoi'r flwyddyn a'i osod ar ganol eich cerdyn. Nawr, addurnwch eich gair ac ychwanegu delweddau o'i amgylch.

2. Nawr ewch ati i greu eich amlen. Os byddwch yn gwneud eich amlen eich hun, gwyliwch y ddolen hon i gael awgrymiadau. Rhowch eich cerdyn yn yr amlen a dychmygwch ei anfon i'r dyfodol trwy'r capsiwl

amser. At bwy hoffech chi ei anfon? Atoch chi eich hun yn y dyfodol efallai, neu at ffrind neu rywun yn eich dychymyg fydd am glywed am eich profiadau eleni. Addurnwch eich amlen fel y mynnoch. Gallwch ychwanegu delweddau, geiriau neu batrymau.

3. Pan fydd eich cerdyn yn barod, rhowch ef mewn man diogel. Gallech ei ychwanegu at eich capsiwl amser eich hun, os bydd eich dosbarth yn gwneud un.



Archwilio

I gloi'r gweithgaredd hwn, anogwch y disgyblion i ystyried y canlynol yn annibynnol, mewn grwpiau, neu fel dosbarth cyfan.

1. Beth rydych chi am i chi eich hun yn y dyfodol, neu rywun arall fydd yn gweld eich cyfraniad i'r capsiwl amser, ei ddysgu, ei weld neu ei ddeall am eich profiad yn ystod pandemig COVID?

2. Pa gyngor fyddai rhywun yn ei gael o weld eich cyfraniad i'r capsiwl amser yn y dyfodol?

3. Pa dri pheth byddech chi'n eu cynnig fel cefnogaeth i chi eich hun yn y dyfodol neu i bwy bynnag rydych wedi'u dewis, petaen nhw'n mynd trwy brofiad tebyg?

Fel ysgol, neu ddosbarth, efallai byddwch chi am arddangos, cyflwyno neu gadw eich creadigaethau*. Gallech wneud y canlynol:

- Creu arddangosfa yn yr ysgol
- Trefnu gwasanaeth myfyrio lle gallai rhai o'r disgyblion rannu eu creadigaethau
- Creu eich 'capsiwyl amser' eich hun – a fyddai modd i chi ei agor cyn bod eich dosbarth yn symud ymlaen i'r ysgol uwchradd? Neu ymhen 5 mlynedd?
- Rhannu rhai o'r creadigaethau fydd yn cael eu cynnwys yng Nghapsiwl Amser Ysgolion 2021 Place2Be, BAFTA Kids ac Oak National Academy 2021 (mae'r manylion ar y dudalen nesaf!)

***Cofiwch, efallai na fydd rhai disgyblion yn dymuno rhannu eu creadigaethau.**



Bod yn rhan o Gapsiwl Amser Ysgolion 2021

Mae **Place2Be**, **BAFTA Kids** a'r **Oak National Academy** yn gwahodd pob ysgol i gyflwyno detholiad o greadigaethau ar gyfer Capsiwl Amser Ysgolion 2021, a fydd yn cael ei gadw ym Mhencadlys BAFTA. Mae hwn yn gyfle i fod yn rhan o'n prosiect ledled y Deyrnas Unedig i gofnodi meddyliau a theimladau pobl ifanc yn ystod y pandemig.

Gwahoddir pob ysgol i rannu hyd at dair creadigaeth ym mhob categori:

- celf a ffotograffiaeth
- ysgrifennu
- cyfryngau

Bydd pob eitem a gyflwynir yn cael ei chynnwys yng Nghapsiwl Amser Ysgolion 2021, a bydd detholiad o greadigaethau'r plant a'r bobl ifanc yn cael eu cynnwys mewn ffilm arddangos, y bwriedir ei rhyddhau yn ystod tymor yr hydref.

Sut i gyflwyno ceisiadau:

1. Ewch i apply.bafta.org
2. Cofrestrwch i gael cyfrif, os nad ydych eisoes wedi cofrestru. Ar ôl cofrestru, mewngofnodwch i'ch cyfrif.
3. Cliciwch ar 'create application' ar frig y dudalen. Sgrolwch i waelod y dudalen i gyrraedd 'Schools Time Capsule' yna cliciwch ar 'Create a new application'.
4. Llanwch yr holl fanylion angenrheidiol ar y ffurflen gais. Gallwch gadw'r ffurflen ar unrhyw adeg a dod yn ôl ati.
5. Mae tair categori, sef: Celf a Ffotograffiaeth, Cyfryngau, Ysgrifennu. Cewch gyflwyno hyd at dri darn o gynnwys ym mhob categori.
6. Lanlwythwch yr holl waith gan ddefnyddio'r cydraniad uchaf posibl ond sylwch ar y terfynau maint ar gyfer cynnwys a ffeiliau unigol ym mhob categori. Cadwch y rhain mewn cof wrth ddethol y deunyddiau rydych chi'n bwriadu eu cyflwyno. Celf a Ffotograffiaeth: ffeiliau 250MB neu lai. Derbynnir ffurfiau JPG/JPEG, PNG neu GIF. Cyfryngau: fideo sy'n para 5 munud neu lai. Derbynnir ffeiliau MP4 neu QuickTime. Ysgrifennu: dim mwy na 500 gair
7. Gofalwch na fydd y cyfraniadau a gyflwynir yn cynnwys unrhyw ddata y gellir ei ddefnyddio i adnabod pobl ifanc.
8. Lanlwythwch y cynnwys trwy glicio ar 'choose file' a dewis y cynnwys yr hoffech ei lanlwytho.



9. Pan fyddwch yn fodlon ar eich cais, gwasgwch 'Submit'
10. Y dyddiad cau ar gyfer cynigion yw 17:00 BST ddydd Gwener 10 Medi 2021.
11. Mae'r cynnig yn agored i bob ysgol yn y Deyrnas Unedig.
12. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch y broses cyflwyno cynigion at: kids@bafta.org

I weld y Telerau a'r Amodau llawn, ewch i: place2be.org.uk/timecapsuleterms

